

## **Cynnig i sefydlu Fforwm Cynnwys ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd: Pecyn Briffio ar gyfer Gweithdy ar 26 Ionawr 2021**

Bwriad y ddogfen hon yw rhoi gwybodaeth i'r rheini a fydd yn mynychu'r gweithdy ynglŷn â'r cynnig i sefydlu Fforwm Cynnwys ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd, gan roi sylw i Faes Ffocws 1 Cynllun Gweithredu 'Darganfod Eich Rôl mewn Ymchwil Iechyd a Gofal Cymdeithasol'.

Bydd yna gyfle yn ystod y gweithdy i glywed mwy am y cynnig hwn a rhannu'ch barn.

## Cefndir

Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru o'r farn ei bod hi'n bwysig cynnwys y cyhoedd yn ystyrlon i sicrhau bod ymchwil yn dda, yn ddiogel ac yn foesebol ac y dylai hyn fod yn rhan arferol o'r broses ymchwil, a hynny fel mater o drefn.

Dros y 12 mis diwethaf, rydyn ni wedi bod yn gweithio trwy ein digwyddiadau 'cymuned ymarfer' a'n harolygon ar-lein i gasglu barn ac adeiladu consensws ynglŷn â'r dyheadau ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd a chynnwys y cyhoedd mewn ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yn y blynyddoedd i ddod.

Rhoddir sylw i'r dyheadau hyn, a'r meysydd ffocws sydd eu hangen i'w cyflawni, yng Nghynllun Gweithredu ['Darganfod Eich Rôl mewn Ymchwil Iechyd a Gofal Cymdeithasol'](#).

## Darganfod Eich Rôl mewn Ymchwil Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Meysydd Ffocws Cytunedig

Mae'r cynnig hwn yn berthnasol i **Faes Ffocws 1**:

“Creu rhwydwaith mwy ystyrlon ar gyfer cynnal trafodaethau ar gynnwys y cyhoedd, cymorth gan gymheiriaid a rhannu arferion da.”

### Adborth hyd yma ar y gofynion ar gyfer y Fforwm

Dylai Fforwm gynnig:

1. “Er bod yna lawer o weithgarwch gwych yn barod, mae angen cysylltu hyn yn well”
2. “Rhywle i gydweithio a rhannu gwybodaeth”
3. “Rhywbeth agored a chynhwysol, sy'n hawdd i ymuno ag ef a chymryd rhan ynddo”
4. “Y cyfle i ofyn cwestiynau a llunio penderfyniadau a gweithgareddau”
5. “Dod â safbwyntiau'r cyhoedd, yr ymchwilwyr a llunwyr polisi at ei gilydd mewn un lle”

## Model Arfaethedig ar gyfer y Fforwm

### Fforwm Cynnwys ac Ymgysylltu

- 2 neu 3 chyfarfod y flwyddyn
- Ar arddull cynhadledd, gwahoddiad agored
- Diweddariadau, dadl a gosod blaenoriaethau

### Gweithgorau'r Fforwm

- Grwpiau ar gyfer tasgau penodol, dan gyfyngiad amser
- Blaenoriaethau ar sail consensws y Fforwm
- Nodau ar y cyd, gwaith ar y cyd, arweinyddiaeth ar y cyd

# Nodweddion Allweddol: Y 'Fforwm' a'r Gweithgorau

## Fforwm Cynnwys ac Ymgysylltu

Cymuned o unigolion â'r nod o ddylanwadu ar weithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd a chynnwys y cyhoedd ar draws ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, a chefnogi gwelliant parhaus y gweithgareddau hyn

- Amlbwrpas: clywed am y datblygiadau diweddaraf; codi cwestiynau a thrafod pynciau llosg; pleidleisio ar flaenoriaethau; rhwydweithio â chyfranwyr cyhoeddus ac ymchwilwyr; ymuno â gweithgorau
- Mae Cynllun Gweithredu 'Darganfod Eich Rôl mewn Ymchwil Iechyd a Gofal Cymdeithasol' yn darparu fframwaith cychwynnol ar gyfer ffocws a gweithgareddau, ond ni ddylid cyfyngu'r Fforwm i'r hyn sydd yn y cynllun – gellir codi syniadau a blaenoriaethau newydd
- Agenda wedi'i gosod yn unol â chonsensws y Fforwm (trwy bleidleisio neu ddull tebyg)
- Wedi'i weinyddu a'i gydlynu gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

- Cyfarfodydd rhithwir i ddechrau, gyda photensial i gael rhai yn y cawd (neu fodel cymysg) yn y dyfodol
- Potensial i'w gynnal 'y tu allan i oriau busnes arferol'
- Gwahoddiad agored i fynychu a hawdd i ymuno ag ef – dim niferoedd penodol i fynychu, dim galw am wybodaeth neu brofiad blaenorol
- Disgwyllir y bydd staff perthnasol Llywodraeth Cymru, Canolfan Cefnogi a Chyflenwi Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a'r Grŵp Seilwaith Ymchwil yn mynychu

## **Gweithgorau'r Fforwm**

Cydweithio i siapio gweithgareddau a datblygu cynigion i fynd i'r afael â materion allweddol sy'n gallu hyrwyddo agenda cynnwys ac ymgysylltu â'r cyhoedd mewn ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru

- Grwpiau o unigolion â buddiant, yn gweithio ar dasg(au) penodol sy'n cyfrannu at flaenoriaethau y cytunwyd arnyn nhw yn y Fforwm Cynnwys ac Ymgysylltu
- Amcanion wedi'u diffinio gydag amserlenni y cytunwyd arnyn nhw

- Gall unrhyw unigolyn â buddiant gadeirio'r grwpiau, gyda chefnogaeth Canolfan Cefnogi a Chyflenwi Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Honorariwm a threuliau ar gael i gyfranwyr cyhoeddus, fel bo'n briodol i'r dasg
- Gallai nifer o weithgorau fod yn gweithredu ochr yn ochr
- Mae Cynllun Gweithredu 'Darganfod Eich Rôl mewn Ymchwil Iechyd a Gofal Cymdeithasol' yn darparu set gychwynnol o weithgareddau i fod yn ffocws i weithgorau, ond gellir rhoi sylw i faterion eraill pan geir consensws yn y Fforwm eu bod yn flaenoriaeth

## Gweithgor: Enghraifft 1

### Gweithgor y Fforwm ar Dalu am Amser Cyfranwyr Cyhoeddus\*

#### **Beth**

Datblygu datganiad yn amlinellu disgwyliadau ar gyfer rheoli taliadau prifysgolion am weithgareddau cynnwys cyfranwyr cyhoeddus (yn berthnasol i Faes Ffocws 5 yn y Cynllun Gweithredu)

#### **Pwy**

Llywodraeth Cymru (arweinydd), Canolfan Cefnogi a Chyflenwi Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, Arweinwyr Cynnwys mewn Ymchwil, Cyfranwyr Cyhoeddus ynghyd â phartneriaid o wledydd eraill y DU

#### **Pryd**

Drafftio'r Datganiad erbyn mis Ionawr 2021, gyda sefydliadau perthnasol yn ei gymeradwyo ac yna'i gyhoeddi erbyn diwedd mis Chwefror 2021

\* Enghraifft go iawn o waith sydd eisoes ar y gweill



## Gweithgor: Enghraifft 2

**Gweithgor y Fforwm ar hybu cynnwys y cyhoedd fel rhan o addysg israddedig ac ôl-raddedig\***

### **Beth**

Dylunio, cyhoeddi a dadansoddi arolwg i nodi'r cyfle a'r dull gorau i hybu gwerth cynnwys y cyhoedd mewn ymchwil fel rhan o gyrsiau perthnasol (yn berthnasol i Faes Ffocws 2 yn y Cynllun Gweithredu)

### **Pwy**

Arweinwyr Cynnwys mewn Ymchwil (arweinydd), Cyfranwyr Cyhoeddus, Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

### **Pryd**

Dylunio a chyhoeddi'r arolwg erbyn mis Mawrth 2021

Dadansoddi canlyniadau a llunio cynnig gweithredu erbyn mis Mai 2021

\* Enghraifft ddychmygol, i ddangos beth allai ddigwydd

## Yn ceisio'ch barn chi

Bydd gweithdy'r Fforwm yn gyfle i rannu'ch barn ar y cynnig hwn. Ymhlith rhai o'r cwestiynau y byddwn ni'n eu gofyn i gyfranogion mae:

- Sut fydddech chi eisiau ymgysylltu â'r Fforwm a'r gweithgorau pe bai pethau'n cael eu strwythuro yn y ffordd sydd wedi'i hamlinellu yn y cynnig hwn?
- Oes yna unrhyw faterion ymarferol sydd angen eu hegluro ynglŷn â rôl y Fforwm a'r ffordd o'i weithredu sydd wedi'i hamlinellu yn y cynnig?
- Sut ddylen ni hybu bodolaeth y Fforwm i gyrraedd y tu hwnt i'r bobl arferol?
- Gan ei bod hi'n annhebygol y bydd modd cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn y dyfodol agos, oes yna faterion penodol y dylen ni fod yn eu hystyried i sicrhau bod digwyddiadau'n gynhwysol ac yn ennyn brwdfrydedd?

## Sut i rannu'ch barn

Mynychu gweithdy'r Fforwm ar 26 Ionawr 2021.

Os na allwch chi fynychu'r gweithdy, gallwch chi anfon eich barn i:

[cynnwys-ymchwil@wales.nhs.uk](mailto:cynnwys-ymchwil@wales.nhs.uk)

Bydd crynodeb o drafodaethau'r gweithdy'n cael eu cyhoeddi ar ôl y digwyddiad. Bydd hefyd yn bosibl pleidleisio ar ôl y digwyddiad ar bynciau â blaenoriaeth ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.